



Dyma lun ffwng i guro pob llun ffwng - a dydi hynny ddim i ddifriö yr un o'r myrdd sydd yn cyrraedd Llên Natur ac Instagram pob dydd y tymor hwn. Diolch i Morgan Owen am ganiatáu i ni ei ddefnyddio (ar weundir ger Heolgerrig, Merthyr Tudful, 27 Awst 2017). Enw Morgan ar hwn erioed yw GLAWLEN Y BWGAN.

**Dilynwch Facebook Llên Natur NEWYDD am ein holl ddigwyddiadau.**

Rydym bellach yn "DUDALEN" (chwiliwch am CYMUNED LLÊN NATUR)



Helpa Ffwng Parc Dydli (1 Hydref).... a'r sgram wedyn!



Nid pob un o'r rhain sy'n fwytadwy - ond MAE'r rhan fwyaf



## Y wenci a'r gath gwancus



Meddai Marian Elias:

"Ymwelydd cyson â'r tŷ acw ydi'r gath drws nesaf [Clynnog]. Yn gydnabyddiaeth am aml brydyn blasus gennyf mi fyddaf unwaith yn y pedwar amser yn derbyn anrheg ganddi ar ffurf llygoden gan roi'r argraff ei bod wedi ei dal yn arbennig i mi. Y diwrnod o'r blaen beth oedd wrth y drws cefn ynghanol y glaw ond llygoden arall a honno'n wlyb domen ac yn gelain gorff. Nid oedd golwg o'r gath.

Ni allwn stumogi wynebu helpa arall o fewn pythefnos i'w gilydd ond ymhen diwrnod neu ddau, a'r glaw wedi cilio, magais ddigon o blwc i'w rhoi yn y bin efo rhaw â choes hir. Ond sylwais fod y blew o dani fel melfed gwyn, ei chorff yn hir, hir, ei chefn yn lliw brown hyfryd, ei phawennau blaen yn fyrion a'i chynffon yn gwta. Tynnais lun. Dyma fo. Bronwen? Os felly, unwaith yn unig y gwelais un, a hwnnw'n hen beth bach, bach, tywyll, hiraen yn rhedeg am ei fywyd ar draws y ffordd bost ger Tyddyn Hywel ar waelod y Lôn Goch sydd yn terfynu â Stad Glynllifon. Profiad bythgofiadwy. Ac un cwestiwn arall – a fuasai cath yn mentro dal anifail fel hyn?"

## Gwledd o fasantod



Ffasantod yn crwydro ar hyd y ffordd uwchben Talsarnau, 13 Hydref 2017.

Keith O'Brien

Welis i lawer un ar y ffordd ger Glyn Cywarch echddoe. Heb sylwi or blaen?? Dwin dallt fod yna "shoot" newydd wedi ei sefydlu ar yr ystad ??

Rhys Gwyn Roberts

20,000 wedi eu rhyddhau glywis i. Mae nhw yn pobman yn yr ardal.

Robin Dylan Evans

EWCH YMA I WELD ERTHYGL NEWYDD WICINATUR AR HANES Y FFASANT YNG NGHYMRU

## Llin y llyffant



Blodau yn y perth ar lwybr yr arfordir ger Porth Swtan yn mis Awst. Beth ydyn nhw?

Jonathan Simcock

Mae'n edrych fel 'Llin y llyffant', sef 'common toadflax' yn y Saesneg.

Martin Coleman

Dyma enwau eraill amdano:

Llin y Llyffant  
Gingroen Fechan  
Gingroen Melyn  
Gwmerth  
Llin y Forwyn  
Llin y Llyffaint

Trwyn y Llo  
Wyau a Cig moch  
Ymenyn ac Wyau  
*Linaria vulgaris*  
common toadflax

## Cingroen arall.... ddrewllyd



*Phallus impudicus*, yng nghoedwig Gwydir, ger y Rhaeadr Ewynnol. Er bod y gleba wedi cael ei gario i ffwrdd, roedd digon o bryfed o'i amgylch nes i mi gerdded heibio a'i dychryn i ffwrdd. Sleifias yn ôl ac ar ôl ychydig o funudau mi 'roedd y pryfed wedi heidio yn ôl. Doedd dim o'r gleba ar ôl, i mi weld, ond oedd atyniad y ffwng dal yn gryf.

Raymond Griffiths

## Brychyn y coed



Lindysen y GWEIRLÖYN  
BRYCH *Pararge aegeria*

Dominig Kervegant

A dyma'r glöyn ei hun gan Eifion Griffiths. A dyma'r **manyllion yma**



Beth am gynnig datblygu erthygl Wicipedia am y glöyn bach cyfarwydd yma. Gallem eich hyfforddi i fod yn Olygydd y gronfa Gymraeg wych hon. **Dyma** beth sydd yna ar hyn o bryd....



## Hydref yr hymars.....



Meddai Alan Hampson, cyfaill i Llên Natur yng Nghernyw:

"....was in the Barbara Hepworth garden in St Ives this morning [25 Medi 2017]. At 11.00 there was a huge explosion which they reckon was a sonic bang. Then I noticed two Hummingbird moths [ia, DAU ohonyn nhw!] on one of the plants. Have not seen these before".



Rwyf wedi cerdded milltiroedd gan obeithio medru gweld un o rhain ond doedd dim angen wrth fy mod wedi bod mor lwcus a'i gael yn fy ngardd heddiw [18 Medi] yn ganol Nefyn [chwith].

Bethan Vaughan Davies

**A dyma beth oedd yn lordio hi** (cliciwch i weld fideo) ar Lôn Las Menai bore ma [Awst 27], yng Nghaernarfon - gwach-wyfyfyn hofrol *Macroglossum stellatarum* (Humming-bird Hawk-moth). Mae'n amlwg bod mewnlifiad wedi bod ar droed (gyda'r holl mentyll cochion hefyd wedi ein cyrraedd mwya sydyn). Dyna arbennig o lwcus. Meddwl mod i'n ôl yn Ciwba ble gwelais sawl 'humming bird' ond dim un fideo. Gwych- byddaf yn cadw hwn.

Rhiannon James

## Didyms!



Tro cyntaf erioed bore yma i mi gael brathiad gan bry cop yn y wlad yma. Aeth y COPYN GARDD cyffredin *Araneus diadematus* i fyny fy llawes wrth wagio'r trap gwyfynod bore



ma, a'r cyntaf glywish ohono oedd priciad pin ar fy ngarddwrn. Cododd yn chwydd bach o fewn munudau ac roeddwn i'n dal i'w deimlo at hyd at tua hanner awr wedyn.

Meddai Dominig Kervegant: "Ydych chi wedi sylwi ar y groes ar gorff hwn? *Araignée porte-croix* [dwyn/cario croes], neu épeire diadème yw ei enwau Ffrangeg - mwy

diddorol na "chorryn yr ardd." "Diadème" ydi streipen o ddefnydd wedi ei addurno gydag arwyddion brenhinol." (Llun, Tregarth, 9 Hydref 2017)

## Neidr ddall?



Dwi'n aml yn dod ar draws neidr ddall yn torheulo ar y llawr llechen yn y gegin, ond hon ydy'r leiaf i mi weld erioed. Dwi'n cymryd ma' hogan ydy hi yn ôl y marciau. Dwi braidd yn ofnus ei hanfon allan i'r ardd - ma hi'n edrych yn llawer rhy ifanc i fod allan ar ei phen ei hun! (28 Awst 2017 yw dyddiad y postiad).

Gwawr Eilian

Mae Gwawr yn cyfeirio at hon fel neidr ddall. Enw cyffredin arall arni yw **neidr ddefaid** (*Anguis fragilis*, slow-worm). Yn ol Geiriadur yr Academi, slorwm yw yn y de. Beth sydd yn gyfarwydd i chi (cofiwch dweud ble).

## Neidr wair yn Cilan



Cilan heddiw 23 Medi 2017: Neidr wair ifanc

Gareth Jones

## Fforch arian yn y Bala



FFORCH ARIAN silver y 28 Medi Bala Luned Meredith  
Mewnfudwr achlysurol, yn aml mewn niferoedd mawr.



## 'Slafan sêr... tymhorol?




Griffith y Sêr nid nepell o Dolbelydr, Trawsfynydd 23 Medi 2017

Keith O'Brien

Meddai Seimon Glyn (FB): "Bedi griffth sêr?"

Neb yn hollol sicr beth yw hyn ond mwy na thebyg griffth/jeli llyffant cyn i'r wya fynd iddo [yn yr achos hwn o leiaf]. Y ddamcaniaeth ydi fod anifeiliaid ac adar megis crêyr glas yn bwyta'r llyffantod adeg yma o'r flwyddyn a pan fo'r prae yn treulio yn y stumog mae'r griffth yn chwyddo'n anferthol gan wneud i'r aderyn ei gyfogi allan. Pwdre'r Sêr / Griffth y Sêr oherwydd fod yr hen fobl yn meddwl mae yn llythrennol chwyd y sêr oedd o yn disgyn o'r ffurfafen!

Keith O'Brien



Dyma ddsbarthiad tymhorol y 25 o gofnodion "griffth ser" yn y Tywyddiadur a'r Oriol. Mae nhw'n dechrau ym mis Medi ac yn darfod ym mis Chwefror - sy'n awgrymu mai dilyn patrwm cynhyrchu griffth y tu fewn i lyffant y mae nhw (y llyffantod yn dodwy ym mis

Chwefror)?

## Dwyrain a gorllewin yn cwrdd



Mwy yma ar Gymuned Llên Natur Facebook

Neges gan Rhys Jones: "Mi ddoes o hyd i rhain yn Ninas Dinlle dydd Sadwrn. Y **corgwtiad aur** [30 Medi] wrth y Maes Awyr [llun isaf]. Mi oedd dal yno ddoe. Bron mor rhyfeddol oedd cyfri o 30 **Pibydd Torchog!**"


## Siobyn fan hyn, siobyn fan draw...



Ar y Cob Crwn ym Mhorthmadog heddiw 29/9/17

Siobyn gwelw, *Calliteara pudibunda*,

Gareth Jones



A dyma'r graff: wedi ei greu o gofnodion (sydd â dyddiad) Facebook y DG ers tua 2010. Mae'n dangos 1. cyfnod y flwyddyn y cafodd oedolyn y siobyn gwelw ei weld (penllanw mis Mai); 2. cyfnod y flwyddyn y cafodd y lindys ei weld (penllanw mis Medi); 3. bod y tebygolrwydd o weld oedolyn a lindysen yn debyg iawn (cyf. 50:53); 4. bod posib chwilio data Facebook, a 5. bod data Facebook yn cario gwybodaeth ecolegol go iawn ond i chi chwilio amdano yn systematig. Mae'r gwyfyn yn treulio'r gaeaf fel chwiler gyda llaw.

Mi ddywedais i UN celwydd bach - mae un o'r cofnodion yn y graff wedi dod o'r Almaen (nid y DG). Pa un?... yr unig gofnod ym mis Awst (saeth du)..

**Cofiwch glicio ar y geiriau mewn coch i gael mwy o wybodaeth**



## Pigion o WiciNatur: Edward Edwards, Faenol Isa, Tywyn (Mer.)

Cyfraniad achlysurol yw hwn o gynnyrch WiciNatur o dudalennau y Wikipedia Cymraeg. Mae'r dudalen lawn i'w chael [yma](#). Rwth Tomos, y diweddar Tom Jones ac Arfona Jones fu'n gyfrifol am drawsgrifio dyddiadur gwreiddiol EE i'r Tywyddiadur, a Rwth Tomos baratodd y dudalen bywgraffiadol hon i Wici. Mae'r ddogfen wreiddiol wedi ei chadw yn Archifdy Gwynedd (Dolgellau) dan y côd cofrestru Z/M/3192/1

Ysgrifennodd Edward Evans ei ddyddiadur mewn ffermdy o'r enw "Faenol Isaf", Tywyn, Meirionnydd, fferm mewn ardal o wastadeddau arfordirol i'r de o'r dref. Gelwid y fferm yn Ysgubor Ddegwm cyn 1871, y Faenol yn 1871, a Faenol Isaf erbyn 1881. Stâd o dai yw'r Faenol Isaf erbyn heddiw, yn rhan o dref Tywyn ond gellir gweld yr hen ffermdy (tŷ anedd gyda gardd fach yn unig) ar ben isaf y stâd gyda'r ysgubor ('Scubor Ddegwm) y tu ôl iddo a hen fwthyn (Faenol Fach) wrth ei ymyl.



Ysgrifennwyd dyddiaduron Edward Edwards rhwng 1873 a 1886. Er mai Ystad Ynysymaengwyn oedd perchen mwyafrif helaeth y tir, yr Eglwys Anglicanaidd oedd perchnogion Faenol Isaf. Y meistir tir oedd John Jones Brown, Rheithior Llandanwg. Lewis, Dolgellau, oedd ei asiant ac aeth Edward i Ddolgellau pob mis rhagfyr i dalu rhent. Efallai mai'r peth mwyaf rhyfedd am y dyddiaduron, gan eu bod wedi ysgrifennu yng nghyfnod y "Welsh Not", yw eu bod wedi'u hysgrifennu yn y Gymraeg.

Mae'n amlwg fod yr awdur wedi cael ychydig o addysg Saesneg ond mae'n ysgrifennu popeth yn union fel y buasai yn ei ddweud ar lafar. Nid yw'n defnyddio atalnodi ac mae llythrennau bras yn cael eu defnyddio ar gyfer y geiriau sy'n bwysig iddo. Mewn cyfnod pan oedd crefydd anghudffurfiol mewn bri yr oedd Edward yn aelod yng Nghapel Bethel (MC), Tywyn, ac yn bresennol yno o leiaf ddwywaith pob Sul, gan iddo enwi pob pregethwr a nodi testun pob pregeth yn ei ddyddiadur.



Y Clawdd Llanw i'r de o Dywyn

### Cefndir Daearegol y fferm

Wrth deithio o Dywyn i Aberdyfi heddiw nid yw'n amlwg pam fod y ffordd a'r rheilffordd mor bell o'r môr. Yn y 19eg ganrif yr oedd cors rhwng y ffordd a'r môr, gyda Llyn y Borth i'r de o fferm Penllyn, a phan oedd y llanw yn uchel gorlifai ddŵr hallt ar draws y gors. Lledaenai'r afon Dyffryn Gwyn dros y tir mewn cyfnodau o wlaw trwm. Adeiladwyd "clawdd llanw" i gadw'r llanw rhag llifo dros y gors a gwacawyd y llyn rhwng 1862-4.

Agorodd y rheilffordd rhwng Tywyn a Machynlleth yn 1867 gan dorri trwy dir cymdogion Edwards, Faenol Uchaf ac Esguan. Crewyd camlas o dan y ffordd a'r rheilffordd i gyfeirio dŵr afon Dyffryn Gwyn yn syth at y môr. Arhosodd y tir a oedd yn uwch na lefel y llyn hyd yn oed yn llawer gwlypach na heddiw. Weithiau dryllwyd y clawdd; yn 1877 cofnododd "clawdd llanw wedi torri", ac yn 1879 "dŵr yn dywad dros y morfa".

Gweithiodd Edward, ei fab a'i nai, yn galed i sychu'r tir yn y darn morfa agosaf atynt. Eu dull oedd torri "trensio" a'u llenwi â cherrig a rhoi pridd drosdynt. Buont yn torri'r brwyn ac yn cario llwythi o dywod ac weithiau pridd neu ddaear galed i'w lledaenu ar draws y tir corsio. Hwn oedd dull y cyfnod o hwyluso rhediad y dŵr o'r tir i'r ffosydd cyfagos. Erbyn 1879 bu'n bosibl aredig rhannau o'r morfa a thyfu ambell gnwd ond yr oedd cloddio ffosydd rhwng caeau a ffermydd yn waith parhaus. Mor hwyr ag 1886 buont "yn torri trensis yn y cae newydd", cae oedd uwchben y ffermdy.

**Parhad yn y rhifyn nesaf**



Safle Llyn y Borth, Tywyn, ar ôl ei ddraenio yn 1862-4



Aber afon Dyffryn Gwyn (heddiw)

**Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd** (Rhif Elusen: 1126027)


Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia  
Cysylltwch â ni trwy [lennatur.yahoo.co.uk](http://lennatur.yahoo.co.uk)



## Ar gynffon (storm) Ophelia 16 Hydref 2017



Gwedd arall ar Ophelia ("Offelia yn boddi" gan John Everett Millais) - tawelwch a phurdeb (Tate Britain: WikiCommons)




Dyma ganlyniad storm Ophelia ar yr 16 Hydref 2017 oedd yn symud dros orllewin Iwerddon tua 240 milltir i ffwrdd. Pwysau'r awyr yn gostwng (llinell ddu), y tymheredd yn codi yn sydyn (llinell goch) oherwydd y gwynt cynnes yn cael ei chwythu o'r de, a'r gwlybanaeth (*humidity*, llinell werdd golau.) M yw hanner nos ac N yw canol dydd

Ifor Williams



### Gwledd o luniau eraill ar Facebook Cymuned Llên Natur

Haul 1: Alun Williams. Haul 2: Olwen Evans ("Yr awyr od bore 'ma tua Bangor. Roedd na arogl blodau hefyd ond dim golwg o flodau a rydwi wedi teimlo fod llwch yn fy nghog trwy'r dydd. Llwyd man hyd y car.") Haul 3: Paul Sambrook ("Haul rhyfedd uwchben Llanfair Llythynwg y prynhawn 'ma").



## Paratoi canwyllau brwyn



Offeryn gwneud canwyllau brwyn neu babwyr yw hwn, yn perthyn i Edwin Harding Evans (gyda'i ganiatád). Unrhyw un yn gallu cofio clywed sut i ddefnyddio'r badell i wneud y canwyllau - neu unrhyw hanesyn am y broses o hel **pabwyr** i ddefnyddio'r gannwyll orffenedig (diolch i Haf Meredydd am dynnu sylw)? A wna'i unrhyw frwyn y tro ynteu a oedd rhai yn well na'i gilydd?

Cofio darllen yn rhywle bod ysgolheigion yn gallu adnabod dogfennau wedi eu hysgrifennu dan olau pabwyr gan fod y cŵyr (saim) yn diferyd dros y papur a'i ddifwyno. Ydi hyn yn iawn? Byddai'n dda cael llun o enghraifft).

Meddai Haf Roberts: "Rhywbeth arall sydd wedi ymddangos... ydi'r gair 'dil' am y bocs sy'n dal y canhwylau brwyn. Oes enghraifftiau yn dal i fodoli? O ble daeth y gair tybed?"

Un o'r ystyron yn GPC yw : "Blwch i gadw canhwylau brwyn: Ar lafar gynt yn y Gogledd, 'p'le ma'r dil hwnnw lle ma'r canhwylau gen't ti?"




Dyma olygydd GPC Andrew Hawk: "Mae 'dil' yn hen air (1346 yw'r enghraifft gyntaf sydd yn GPC, yn yr ystyr 'honeycomb'), ond does dim gair tebyg yn yr ieithoedd Celtaidd eraill ac nid oes dim byd tebyg yn Saesneg y gallai fod yn fenthyciad ohono - felly does dim tarddiad yn GPC.... Does dim byd yn ein cronfa ddata o darddiadau chwaith, rwy'n ofni. Tipyn o ddirgelwch!... mae'n debyg mai'r un gair [â DIL= 'honeycomb'] sydd yma. Tybed oedd rhywbeth am y blwch dal pabwyr yn debyg i 'honeycomb'?"





## Campfa hadau

Nod y gweithgaredd hwn yw annog y plant i feddwl sut caiff hadau eu gwasgaru a'u trawsgludo. Dylid rhoi amser i'r dysgwyr edrych o amgylch y safe am dystiolaeth o hadau wedi'u gwasgaru. Sawl dull neu fath gwahanol o hadau allan nhw eu darganfod? Trafodwch y gwahanol ddulliau o wasgaru hadau gyda'r plant. Gofynnwch i rai plant arddangos pob dull drwy symudiadau. Ar ôl trafod pob un, gwaeddwch y dulliau allan ar hap i'r plant eu hactio:



### Hadau sy'n cael eu gwasgaru gan y gwynt:

- Dant y llew – Plant yn meimio chwythu dant y llew
- Mae hadau'r sycamorwydden yn troelli yn y gwynt fel hofrenyddion – plant yn troelli gyda'u breichiau yn syth allan
- Mae hadau castanwydden y meirch (concyrs) yn cwmpo ac yn bownsio – plant i feimio hyn
- Mae pennau'r pabi yn siglo yn y gwynt – yna mae'r hadau yn cwmpo allan ac yn rholio – dylai'r plant sefyll yn eu hunfan a siglo eu cyrff

### Hadau sy'n tasgu wrth i'r codennau ffrwydro:

- Naid seren fawr yn yr awyr, curo dwylo uwch y pen a gweiddi "bang".

### Hadau sy'n cael eu gwasgaru gan anifeiliaid:

- Mae gwiwerod yn casglu cnau ac yn eu claddu yn y ddaear; mae adar yn bwyta aeron ac yn ysgarthu'r hadau eto. Gall y plant feimio bod yn wiwerod ac adar (gallwch chi benderfynu os ydych am ddweud wrthynt sut yn union gaiff hadau eu gwasgaru gan adar).
- Mae hadau gludiog fel pennau pigog yn glynu wrth flew anifeiliaid a dillad pobl ac yn cael eu gwasgaru fel hyn – dylai un plentyn ddal ymlaen i goes neu fraich plentyn arall.
- Mae hadau yn cael eu gwasgaru wrth i anifeiliaid ysgarthu – chi sydd i benderfynu beth i'w wneud gyda hyn!

### Caiff rhai hadau eu gwasgaru gan ddŵr:

e.e. dafnau o law yn treiglo neu afonydd:

- Conau gwern – symudiad nofio



## Grwpiau allan yn yr awyr agored yn cymryd rhan yng Nghampau Mes Cyfoeth Naturiol Cymru

(manylion yn rhifyn mis Hydref)



**Chwith:** disgyblion Ysgol San Sior, Llandudno yn plannu mes.

**Dde:** Cylch Meithrin & Ti a Fi Cerrigydrudion yn hel mes ar stad Rhug

